

GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

SWYDD-DDISGRIFIAD

Adran	Lleihau Risg
Swydd	Cydlynnydd Digwyddiadau Gemau'r Cadetiaid Tân
Rhif y Swydd	
Gradd	12
Lleoliad	Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub
Yn gyfrifol i'r	Pennaeth Diogelwch Cymunedol
Yn gyfrifol am	Ddim yn berthnasol

Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth

PRIF BWRPAS Y SWYDD

Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cynnal Gemau Cenedlaethol Diffoddwyr Cadetiaid Tân 2025. Bydd cydlynnydd y digwyddiad yn goruchwyllo cynllunio, cydlynu, gweithredu ac adolygu'r gemau. Bydd hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am sicrhau bod y digwyddiad yn esmwyth, yn ddiogel, ac o fewn y gyllideb, tra'n darparu profiad cofiadwy i'r holl gyfranogwyr a mynychwyr.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU:

- Adeiladu a chyflawni cynllun prosiect cynhwysfawr ar gyfer y gemau.
- Cydlynu holl logisteg y digwyddiad gan gynnwys caffael offer a threfniadau cludo.
- Goruchwyllo creu a rheoli amserlenni'r digwyddiad, gan sicrhau bydd yr holl weithgareddau wedi'u hamseru a'u gwireddu'n gywir.
- Arwain a rheoli tîm o wirfoddolwyr a staff, gan ddarparu arweiniad clir a chefnogaeth.
- Hwyluso cyfarfodydd tîm cyson i fonitro cynnydd, mynd i'r afael â heriau a sicrhau aliniad â nodau'r digwyddiad.
- Datblygu a rheoli cyllideb y digwyddiad.
- Sicrhau nawdd a rheoli cydberthnasau â noddwyr i gefnogi ariannu'r digwyddiad.
- Tracio ac adrodd ar berfformiad ariannol, gan ddarparu diweddariadau cyson i gyfarwyddwr y digwyddiad.

9. Bydd hyn yn cynnwys gweithredu fel prif fan cyswllt yr holl gyfranddalwyr gan gynnwys cyfranogwyr, gwasanaethau tân ac achub eraill, noddwyr, gwerthwyr a phartneriaid cymunedol.
10. Trefnu a hwyluso cyfarfodydd i randdeiliaid yn ôl y gofyn.
11. Sicrhau fod pob gweithgaredd yn cydymffurfio â rheoliadau a safonau diogelwch.
12. Gwneud trefniadau priodol i ddiogelu'r cyfranogwyr.
13. Cydlynu ac arwain adroddiad ôl-drafodaeth cynhwysfawr ar ôl y digwyddiad ynghyd â datblygu dogfen frifio ar gyfer gemau nesaf y cadetiaid..
14. Gellir disgwyl hefyd i'r ymgeisydd llwyddiannus ymwneud â ffrydiau gwaith eraill sy'n gymesur â'r radd.

GOFYNION GWASANAETH SAFONOL

- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurol â'r raddfa a'r swydd
- I weithredu egwyddorion Polisiâu Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.
- I ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisiâu a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eich hun yn ogystal â rhai personau eraill a all gael eu heffeithio'n andwyol gan eich gweithredoedd/anweithredoedd.

GWERTHOEDD SEFYDLIADOL

Wrth berfformio'r rôl uchod, mae'n ofynnol i bob gweithiwr y Gwasanaeth ddilyn a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth i fod, ar bob adeg:

- Yn broffesiynol
- Yn ofalgar
- Yn barchus
- Yn ymroddgar
- Yn ddibynadwy
- Yn rymus
- Yn ddisgybledig
- Yn hydwyth